

# Dirprwy Reolwr Cartref Preswyl i Blant
## Cyflog: Gradd G05 £35,412 - £38,220
## Contract: Parhaol, 37 awr yr wythnos ynghyd â dyletswyddau ar alwad
## Lleoliad: Sir y Fflint

Ydych chi'n barod i helpu siapio dyfodol gofal preswyl i blant?

Ydych chi'n credu bod pob plentyn yn haeddu'r safon uchaf o ofal a chymorth? Ydych chi'n angerddol am wneud pethau'n wahanol er mwyn cael effaith barhaol?

Yn Cyngor Sir y Fflint, rydym ni hefyd. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â'n gwasanaeth preswyl blaengar ac esblygol ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym yn adeiladu model gofal sy'n seiliedig ar dosturi, creadigrwydd ac ymarfer therapiwtig. Rydym yn chwilio am Ddirprwy Reolwr i helpu arwain y ffordd.

Fel rhan o'n Gwasanaethau Preswyl i Blant, byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi arweinyddiaeth timau ymroddedig ar draws ein cartrefi. Byddwch yn helpu creu amgylcheddau gofalgar, wedi'u llywio gan drawma, lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu grymuso i ffynnu yn eu haddysg, perthnasoedd a datblygiad personol.

Beth fyddwch chi'n ei wneud:

Cefnogi'r Rheolwr Cofrestredig gyda rheolaeth dydd i ddydd y cartref, gan sicrhau safonau uchel o ofal a chydymffurfiaeth. Mentora a hyfforddi staff i ddarparu gofal therapiwtig, wedi'i lywio gan drawma. Helpu meithrin diwylliant o dosturi, creadigrwydd a chyd-gynhyrchu ar draws y tîm. Gweithio'n gydweithredol gyda phartneriaid amlasiantaethol i ddarparu cymorth holistaidd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Sicrhau bod y cartref yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA). Cymryd rhan yn y rota rheolwr ar alwad, gan ddarparu cymorth ac arweinyddiaeth y tu allan i oriau. Bod yn hyblyg wrth weithio shifftiau, gan gynnwys gyda'r nos, penwythnosau a gwyliau banc, i ddiwallu anghenion pobl ifanc a chefnogi datblygiad y gwasanaeth.

Yr hyn rydym yn chwilio amdano:

Ymarferydd tosturiol a hyderus gyda phrofiad o ofal preswyl i blant. Rhywun sy'n arwain drwy esiampl ac wedi ymrwymo i ymarfer therapiwtig, wedi'i lywio gan drawma. Chwaraewr tîm sy'n gwerthfawrogi cyd-gynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth i helpu pobl ifanc deimlo'n ddiogel, wedi'u clywed ac wedi'u cefnogi. Cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Parodrwydd i fynd drwy wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Hyblygrwydd a gwytnwch i gymryd rhan yn y rota ar alwad ac i weithio shifftiau. Rydym yn croesawu ceisiadau gan weithwyr cymorth uwch profiadol neu arweinwyr tîm mewn lleoliadau gofal eraill sydd â brwdfrydedd dros weithio gyda phlant ac wedi ymrwymo i ddatblygu'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y rôl hon.

Mae hwn yn fwy na swydd – mae'n gyfle i fod yn rhan o wasanaeth sy'n ail-ddychmygu gofal preswyl.

Byddwch yn cael eich cefnogi i dyfu fel arweinydd, cyfrannu at newid ystyrlon, a helpu siapio gwasanaeth sy'n rhoi plant yn gyntaf.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl, cysylltwch â: Danielle Daly– Danielle.Daly@Flintshire.gov.uk or Zoe Edwards Zoe.edwards@flintshire.gov.uk

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL